PERTHYNAS CYMRU YN Y DYFODOL Â PHWYLLGOR Y RHANBARTHAU

Mick Antoniw AC a Bethan Sayed AC

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau

Ionawr 2019

Perthynas Cymru yn y dyfodol â Phwyllgor y Rhanbarthau

1. Cyflwyniad

Mae gan Gymru enw da yn Ewrop. Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei pharchu ac mae ein haliniad polisi gydag Ewrop yn cael cryn gydnabyddiaeth.

Fodd bynnag, nid yw'n ddigon cyd-dynnu'n dda â sefydliadau, llywodraethau, cyrff rhanbarthol, trefi a dinasoedd Ewrop. Mae arnom angen strategaeth sy'n golygu y gallwn baratoi ar gyfer perthynas ar ôl Brexit a fydd yn galluogi Cymru, drwy Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, busnesau a sefydliadau addysgol, i barhau i gael budd o'r trafodaethau yr ydym wedi eu cael, ac wedi eu cymryd yn ganiataol yn y gorffennol o bosibl.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Bwyllgor y Rhanbarthau, sefydliad yr Undeb Ewropeaidd sy'n cynnwys cynrychiolaeth uniongyrchol o Gymru. Nid yw'n hysbys iawn y tu allan i gylchoedd gwleidyddol, ond mae'n fforwm polisi a gwleidyddol pwysig yn yr UE. Gellid dadlau, ysywaeth, ei fod yn sefydliad nad yw wedi sefydlu gwir hunaniaeth unigryw ac mae'n gweithredu ochr yn ochr â'r Comisiwn, y Cyngor Gweinidogion a Senedd yr UE. Mae gennym hefyd gynrychiolaeth ar nifer o gyrff a sefydliadau pwysig eraill yn yr UE, i'w gweld yn y rhestr isod.

Pwyllgor y Rhanbarthau yw llais unigryw llywodraethau is-genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac mae'n cynnig cyfle i gynnal trafodaethau eang ar draws Ewrop gyda'r sefydliadau pwysicaf yn yr UE ac ar draws Ewrop. Mae'n cynnig cyswllt uniongyrchol at ddatblygu polisi a deddfwriaeth sy'n mynd drwy'r UE, ac mae'n darparu mynediad uniongyrchol at Senedd a Chomisiwn yr UE.

Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gynrychioli ar Bwyllgor y Rhanbarthau gan Mick Antoniw, â Bethan Sayed fel Aelod arall yn ôl dewis y Prif Weinidog. Maent wedi eu fetio gan Lywodraeth y DU ac wedi eu penodi'n ffurfiol gan Gyngor yr UE. Y cyfarfod llawn a gynhaliwyd ar 8-10 Hydref oedd y gynrychiolaeth gyntaf a gafodd Cymru ers tua tair blynedd.

Ym mis Ebrill 2017, penodwyd Vikki Howells i Bwyllgor y Rhanbarthau fel aelod llawn (i gymryd lle Mick Antoniw) a phenodwyd Bethan Sayed fel aelod arall (i gymryd lle Rhodri Glyn Thomas). Y mis Tachwedd canlynol, enwebodd Llywodraeth Cymru Mick Antoniw i gymryd lle Vikki Howells. Ni chymeradwywyd yr enwebiad hwn gan Lywodraeth y DU tan 16 Gorffennaf 2018.

2. Beth yw Pwyllgor y Rhanbarthau?

Crëwyd Pwyllgor y Rhanbarthau yn ffurfiol gan Gytundeb Maastricht ym 1993 a chyfarfu am y tro cyntaf ym mis Mawrth 1994. Prif rôl y Pwyllgor yw gweithredu fel llais ar gyfer buddiannau is-genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn yr UE, ac i gynghori tri sefydliad yr UE sy'n gyfrifol am lunio a mabwysiadu deddfwriaeth yr UE ar faterion rhanbarthol (Cyngor y Gweinidogion, y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop). Yn benodol, mae Cytuniad Lisbon yn ei gwneud yn ofynnol yr ymgynghorir â Phwyllgor y Rhanbarthau ar bob prif fater lleol a rhanbarthol o bwys yn ogystal ag unrhyw gynnig drafft a gyhoeddir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Ar hyn o bryd mae gan Bwyllgor y Rhanbarthau 350 o aelodau llawn (a 350 yn ychwanegol o aelodau eraill) sy'n cael eu hethol yn gynrychiolwyr rhanbarthol a lleol o 28 aelod-wladwriaeth yr UE. Mae pedwar aelod yn cynrychioli Cymru (dau fel aelodau llawn a dau fel aelodau eraill): dau Aelod Cynulliad sy'n cael eu henwebu gan Lywodraeth Cymru a dau gynghorydd a enwebir gan CLlLC. Mae gan y DU gyfanswm o 24 o aelodau llawn ar y Pwyllgor a 24 yn ychwanegol o aelodau eraill.

Y Bureau yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau. Yn gyffredinol, mae'n cyfarfod saith gwaith y flwyddyn ac yn paratoi agendâu a rhaglenni polisi ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau cyn pob sesiwn lawn.

Mae cyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau yn cynnwys ei holl aelodau, ac mae'n cwrdd chwe gwaith y flwyddyn. Prif ddiben y cyfarfodydd llawn hyn yw gosod rhaglen Pwyllgor y Rhanbarthau ar ddechrau pob tymor a mabwysiadu safbwyntiau, adroddiadau a phenderfyniadau.

Caiff gwaith Pwyllgor y Rhanbarthau ei rannu rhwng chwe Comisiwn sy'n helpu i baratoi safbwyntiau ynglŷn â chynigion deddfwriaethol drafft yr UE. Caiff fersiynau drafft o'r safbwyntiau a'r penderfyniadau sy'n deillio o'r Comisiynau eu cyflwyno i'r cyfarfodydd llawn wedyn er mwyn cael eu mabwysiadu.

Prif dasg Pwyllgor y Rhanbarthau yw cynghori tri phrif sefydliad yr UE ynghylch polisïau a deddfwriaeth arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd sy'n debygol o gael effaith ar ranbarthau'r UE. Yn benodol, mae Cytuniad Lisbon yn ei gwneud yn ofynnol yr ymgynghorir â Phwyllgor y Rhanbarthau ar bob prif fater lleol a rhanbarthol o bwys yn ogystal ag unrhyw gynnig drafft a gyhoeddir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn cyflwyno ei sylwadau ar ddarnau penodol o ddeddfwriaeth a pholisïau'r UE trwy safbwyntiau, a all gael eu mabwysiadu gan Bwyllgor y Rhanbarthau mewn sesiynau cyfarfod llawn ac ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Gall safbwyntiau ymwneud â chynigion deddfwriaethol ar feysydd polisi (mae'n rhaid ymgynghori ar gynigion o'r fath); polisïau Ewropeaidd yn y dyfodol; a dadansoddiad yn asesu'r effaith diriogaethol a gaiff rhai o gynigion y Comisiwn Ewropeaidd. Gall hefyd wneud penderfyniadau ar unrhyw fater gwleidyddol cyfoes, ond ni all orfodi i'r Cyngor neu'r Comisiwn ymrwymo i'w safbwyntiau a'i benderfyniadau, na chyflwyno ei gynigion deddfwriaethol ei hun.

Yn ogystal â'i rôl ffurfiol, mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn cynnal ymgynghoriadau amrywiol ynghylch rhai polisïau a chynigion deddfwriaethol, ac yn trefnu digwyddiadau i hwyluso ac annog cyfnewid gwybodaeth a phryderon ynghylch materion ar lefel yr UE sy'n effeithio ar ei aelodau.

Hefyd, mae gan Bwyllgor y Rhanbarthau rôl bwysig, gyfansoddiadol wrth amddiffyn yr egwyddor sybsidiaredd. Ers i Gytuniad Lisbon ddod i rym ym mis Rhagfyr 2009, mae gan Bwyllgor y Rhanbarthau'r pŵer i ddwyn achos gerbron Llys Cyfiawnder yr UE pan fo'r egwyddor sybsidiaredd yn cael ei dorri, ond dim ond ar ôl i'r cynnig deddfwriaethol dan sylw ddod i rym. Ond er mwyn osgoi cymryd camau o'r fath yn y lle cyntaf, mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn gweithredu i sicrhau bod unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r egwyddor sybsidiaredd yn cael eu nodi mewn cynigion deddfwriaethol drafft cyn gynted â phosibl, ac mae wedi creu Rhwydwaith Monitro Sybsidiaredd (y mae'r Cynulliad yn aelod ohono) er mwyn codi ymwybyddiaeth a hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng rhanddeiliaid lleol/rhanbarthol a sefydliadau'r UE mewn perthynas â chynigion deddfwriaethol a allai arwain at bryderon sybsidiaredd.

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso, ymhlith rhwydweithiau a chynadleddau rhanbarthol eraill yr UE, Grŵp Cydweithredu Tiriogaethol Ewrop, sef rhwydwaith i hwyluso cydweithrediad trawsffiniol rhwng rhanbarthau a dinasoedd ledled Ewrop. Nid yw Cymru (nac unrhyw ran arall o'r DU) yn cyfrannu at y rhwydwaith hwn ar hyn o bryd.

3. Rhwydweithiau Ewropeaidd eraill gyda chynrychiolaeth o'r Cynulliad

Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE)

Cafodd Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE) ei sefydlu yn Orvieto ym 1997. Mae'r Gynhadledd yn cynnull 'cadeiryddion' neu lywyddion seneddau neu gynulliadau cenedlaethol is-wladwriaethau o bob rhan o aelod-wladwriaethau'r UE. Ar hyn o bryd mae CALRE yn cynnwys 74 rhanbarth o wyth aelod-wladwriaethau yn yr UE:

- Seneddau cymunedau ymreolaethol Sbaen
- Cynghorau rhanbarthol yr Eidal
- Cynulliadau rhanbarthau a chymunedau Gwlad Belg
- Seneddau Länder Awstria a'r Almaen
- Senedd ymreolaethol Åland (Y Ffindir)
- Cynulliadau rhanbarthol y Azores a Madeira (Portiwgal)
- Y sefydliadau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Etholir Llywydd i arwain gwaith CALRE yn flynyddol. Mae CALRE yn sefydlu nifer o Weithgorau sy'n cwrdd i drafod materion sy'n allweddol i'r seneddau/cynulliadau a rhannu arfer da. Er bod ffocws mawr ar waith sefydliadau'r UE, ynghyd â'u polisïau a'u deddfwriaeth, mae'r gweithgorau hefyd yn canolbwyntio ar feysydd eraill sydd o ddiddordeb cyffredin i ddeddfwrfeydd rhanbarthol.

Rhaid i gynulliadau a deddfwrfeydd rhanbarthol gael eu lleoli o fewn aelod-wladwriaeth yr UE i fod yn gymwys ar gyfer aelodaeth CALRE. Mae hyn yn golygu na fyddai'r deddfwrfeydd datganoledig yn y DU yn gallu bod yn aelodau o'r sefydliad unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE.

Cyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Cyngor Ewrop

Y Gyngres yw 'cangen leol a rhanbarthol' Cyngor Ewrop, prif sefydliad hawliau dynol Ewrop. Mae'r Aelodau yn gynghorwyr, meiri a llywyddion awdurdodau lleol a rhanbarthol, a'u rôl fel rhan o'r cynulliad gwleidyddol traws-Ewropeaidd yw hyrwyddo democratiaeth leol a rhanbarthol, gwella llywodraethu lleol a rhanbarthol a gwella hunan-lywodraeth yr awdurdodau. Mae gan Gymru ddau Aelod o'r Gyngres, un o lywodraeth leol ac un o'r Cynulliad. Mae'r Gyngres yn darparu fforwm ar gyfer aelodau etholedig o dros 200,000 o ranbarthau a bwrdeistrefi Ewropeaidd i drafod ac adrodd ar amrywiol faterion yn ymwneud â chynghorau lleol.

Ceir rhestr o rwydweithiau'r UE y mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau Cymreig eraill yn aelod ohonynt yn Atodiad A.

4. Ein perthynas â Phwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol

Bydd aelodaeth y DU o sefydliadau'r UE, gan gynnwys Pwyllgor y Rhanbarthau, yn dod i ben ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019, boed Cytundeb Ymadael ai peidio rhwng y DU a'r UE, fel a gymeradwywyd gan Gyngor Ewrop ar 25 Tachwedd.

Os bydd y Cytundeb Ymadael yn cael ei gadarnhau ac yn dod i rym ar y diwrnod gadael, mae Erthygl 123 o'r cytundeb yn darparu, yn ystod y cyfnod pontio, na fydd Senedd y DU yn cael ei hystyried yn senedd genedlaethol i Aelod-wladwriaeth, ac ni fydd darpariaethau'r Cytuniadau yn gymwys i'r DU o ran hawliau sefydliadol Aelod-wladwriaethau. Fodd bynnag, dywed Erthygl 128 o'r Cytundeb Dileu Drafft y gellir gwahodd cynrychiolwyr neu arbenigwyr y DU yn ystod y cyfnod pontio i fynychu rhai o gyfarfodydd yr UE, a chyfarfodydd cyrff yr UE lle mae cynrychiolwyr neu arbenigwyr o Aelod-wladwriaethau yn cymryd rhan, lle mae presenoldeb y DU yn angenrheidiol ac er budd yr UE, neu lle mae trafodaethau'n ymwneud â "deddfau" (penderfyniadau sy'n gosod rhwymedigaeth gyfreithlon) unigol sy'n cael eu cyfeirio at y DU neu ddinesydd neu gwmni yn y DU (e.e. penderfyniad bod cwmni'r DU wedi torri cyfraith cystadleuaeth yr UE yn ystod y cyfnod pontio), ond ni fydd gan gynrychiolwyr y DU hawliau pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath.

Mae'r Datganiad Gwleidyddol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn nodi y bydd y ddwy ochr yn gweithio tuag at 'fframwaith sefydliadol cyffredinol sy'n cwmpasu penodau a chytundebau cysylltiedig sy'n ymwneud â meysydd cydweithredu penodol'. Mae'n nodi y gallai fframwaith o'r fath fod ar ffurf cytundeb cydgysylltiad. Fodd bynnag, mae angen i'r cytundebau sy'n ymwneud â'r berthynas yn y dyfodol gael eu negodi'n ffurfiol rhwng y DU a'r UE ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019.

Er mwyn sicrhau gweithrediad y berthynas yn y dyfodol, mae'r Datganiad Gwleidyddol yn nodi y gwneir trefniadau sefydliadol ar gyfer ei rheoli, ei goruchwylio, ei gweithredu a'i datblygu dros amser, yn ogystal ag ar gyfer datrys anghydfodau a gorfodi. Yn ogystal, bydd y DU a'r UE yn ceisio sicrhau 'deialog rheolaidd' rhwng y DU a'r UE ar lefel uwchgynhadledd, lefel weinidogol, dechnegol a seneddol ac ar lefel cymdeithas sifil. O ran deialog ar lefel uwchgynhadledd a lefel weinidogol, dywed y datganiad gwleidyddol drafft y dylai hyn, ymhlith pethau eraill, drafod cyfleoedd i gydweithredu mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, **gan gynnwys ar faterion rhanbarthol.**

Cynigion am Ddirprwyaeth i'r DU

Ar hyn o bryd mae Dirprwyaeth y DU i Bwyllgor y Rhanbarthau yn gweithio ar ddatblygu cynigion ar gyfer mecanwaith i gynnal perthynas rhwng y DU a'r Pwyllgor ar ôl Brexit. Fodd bynnag, nid oes gan Bwyllgor y Rhanbarthau rôl ffurfiol yn y negodiadau.

Yn ei sesiwn ar 16 a 17 Mai, penderfynodd Pwyllgor y Rhanbarthau yn unfrydol i **fabwysiadu penderfyniad** ynghylch goblygiadau ymadawiad y DU â'r UE i awdurdodau lleol a rhanbarthol yr UE. Dyma'r Penderfyniad (Saesneg yn unig):

- Notes that there is not sufficient focus on what the future relationship should look like at the level of local and regional authorities;
- Underlines that many important issues require local and regional action and therefore continued cooperation with the sharing of best practice at the level of local and regional authorities is needed;

- Identifies that the economic and social effects of the UK's withdrawal from the EU will most likely be asymmetrical not only across different sectors of the economy, but also across regions and countries, with some regions and Member States being more exposed due to the nature and scale of their trade linkages with the UK;
- Underlines that all levels of governance both in the UK and in the EU27 must continue to prepare for all possible Brexit scenarios;
- Urges the EU member states as well as the EU institutions to ensure that local and regional authorities are not left to deal with Brexit challenges on their own and that these challenges are mitigated as far as possible through a positive future relationship;
- States that even if the Committee does not have a formal role in the negotiations, some of its members and the authorities they represent will have the possibility of adopting formal positions according to their respective roles in their different national legal frameworks; and
- Reiterates that Committee of the Regions is best placed to devise and implement institutional mechanisms to promote regular consultation and interaction with local government and devolved parliaments and assemblies in the UK post Brexit.

Ym mis Gorffennaf 2018, dywedodd Syr Albert Bore, arweinydd Dirprwyaeth y DU wrth Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad fod trafodaethau'n mynd rhagddynt mewn perthynas â'r berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau. Mae Dirprwyaeth y DU wedi cynnig dull dau gam tuag at ddatblygu perthynas yn y dyfodol rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau. Yn y tymor byr, cynigiodd sefydlu cyd-gomisiwn, rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau, i sicrhau parhad rhwng "Diwrnod Brexit" a sefydlu trefniant mwy parhaol. Mae'n cynnig y byddai'r cyd-gomisiwn yn cynnwys 12 aelod ar bob ochr a byddai'n cynnwys demograffeg daearyddol ar draws y DU.

Yn y tymor hir, mae Dirprwyaeth y DU wedi awgrymu edrych ar y posibilrwydd o sefydlu rhanbarth macro-economaidd Gogledd-Orllewin Ewrop. Ymhelaethodd Syr Albert Bore ar hyn yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor MADY ym mis Gorffennaf 2018, gan nodi beth fyddai hyn yn ei olygu:

> *We were then looking at a period beyond any transition period where we had a more lasting arrangement, which picked up on where the European Commission have been moving things, and that is in terms of macro-economic regions. There are a number of macro-economic regions already established and, therefore, there is an opportunity with EU funding sitting in behind macro-economic regions to look at economic issues across the regions perhaps of a number of member states. We wondered whether or not, post Brexit that we might look at a north-west Europe macro-economic region, which then engaged the UK, not just with the north-west of Europe, but also potentially with the likes of Norway and Iceland. That would be phase 2, but phase 2 would require the agreement of member states. We would have to go down that route.*

Gwnaeth Syr Albert Bore ddau bwynt arall yn ei dystiolaeth ar y posibilrwydd o greu rhanbarth macro-economaidd:

- Caiff strategaethau macro-economaidd eu llunio i gwmpasu nifer o wladwriaethau o fewn rhanbarth macro-economaidd, i wella agenda economaidd y rhanbarthau sydd o'u mewn; a

- Byddai gofyn i gynrychiolaeth o'r DU mewn unrhyw ranbarth macro-economaidd gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a gweinyddiaethau datganoledig mewn modd tebyg i ofynion Pwyllgor y Rhanbarthau

O ran yr amserlenni, dywedodd Syr Albert Bore:

> *We're concerned to start the discussion on both what I've called the first phase, as well as the second phase, as early as possible. It will take some time to put in place a joint committee. We think we need to move on that and we should have that in place sooner rather than later. It will take even longer to bring in a macro-economic strategy for north-west Europe, but if we don't start these discussions now, then we are going to be well beyond Brexit before any such strategy is adopted, if that is to be the way forward, if you like, for the longer term.*

Cymru: perthynas arbennig â Phwyllgor y Rhanbarthau

Mewn llythyr at Karl Heinz Lambertz, Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau, ar 19 Mehefin, croesawodd y Llywydd:

> ...the commitment the Committee made in the Resolution to begin internal preparations to ensure the maintenance of relationships between devolved legislatures and local government in the UK and the Committee of the Regions following the UK's withdrawal.

Yn ei adroddiad ar berthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol gwnaeth y Pwyllgor MADY gydnabod rôl bwysig a buddiol aelodaeth Cymru o Bwyllgor y Rhanbarthau yn y gorffennol, gan nodi hefyd y galwadau am berthynas barhaus rhwng Cymru a Phwyllgor y Rhanbarthau ar ôl Brexit.

Yn ei hymateb i'r adroddiad, a osodwyd ar 16 Mai, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o berthynas barhaus rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau ac mae trafodaethau manwl eisoes wedi cael eu cynnal ynglŷn â ffurf y berthynas. Yn y cyfnod pontio, rydym wedi mynegi ein cefnogaeth i sefydlu Pwyllgor y Rhanbarthau-Comisiwn y DU ar y cyd, a fyddai - pe câi ei fabwysiadu gan Bwyllgor y Rhanbarthau - yn cynnwys deuddeg aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau a deuddeg o'r DU. Rydym hefyd wedi nodi y dylai fod cynrychiolaeth ddatganoledig gref yn nirprwyaeth y DU i'r cyd-gomisiwn a byddem yn disgwyl i'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig fod mewn sefyllfa i enwebu un cynrychiolydd i'r pwyllgor (yn amodol ar ddatblygiad y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon). Rydym hefyd yn cytuno â'r cynnig o fforwm gwleidyddol parhaol i Ogledd-orllewin Ewrop ar ôl y pontio a ddylai gynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Yn ystod cyfarfod llawn diweddar Pwyllgor y Rhanbarthau ar 8-10 Hydref 2018, cyfarfu Syr Albert Bore â grŵp cynrychioliadol o aelodau'r DU a gwnaethant gytuno ar y pwyntiau gweithredu isod i sicrhau penderfyniad cadarnhaol i sefydlu cyd-gomisiwn rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU, i sicrhau deialog a dylanwad parhaus yn y cyfnod yn syth ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019.

Fel aelodau'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, rydym wedi cymeradwyo'r dull hwn fel y ffordd fwyaf effeithlon o hyrwyddo trefniadau a fydd yn ein galluogi i sefydlu ymgysylltiad parhaus â Chymru, gyda chymeradwyaeth gan Bwyllgor y Rhanbarthau, ac a fydd yn darparu fframwaith cychwynnol i'r Cynulliad a'r Llywodraeth Cymru allu datblygu eu perthynas Gymreig unigryw.

Bydd yn ofynnol i'r Cynulliad gymeradwyo'r dull hwn ac i gefnogi'r ymdrechion a wneir i ddatblygu'r berthynas newydd hon.

Cytunwyd ar yr egwyddorion canlynol rhwng cynrychiolwyr Cymru a dirprwyaeth y DU i alluogi cynnydd:

- Mae angen brys i sicrhau bod Pwyllgor y Rhanbarthau o blaid creu **Cyd-gomisiwn â'r DU** a fyddai'n cynnig cyfleoedd ar gyfer deialog a chydweithio parhaus rhwng awdurdodau lleol/rhanbarthol Pwyllgor y Rhanbarthau a'r DU, a'r seneddau datganoledig.

- Byddai'r comisiwn hwn yn gweithredu yn ystod y cyfnod pontio ac o bosibl y tu hwnt i hynny, ond byddai angen iddo gael ei ffurfio cyn 29 Mawrth 2019 er mwyn manteisio ar brofiad aelodau presennol y DU o Bwyllgor y Rhanbarthau a'u cysylltiadau yn y Pwyllgor hwnnw.

- Cydnabyddir y byddai cynnig o'r fath yn gofyn am benderfyniad gan Bureau Pwyllgor y Rhanbarthau, yn bennaf oherwydd y goblygiadau ariannol a gweinyddol parhaus ynghlwm wrth sefydlu comisiwn.

- Bydd angen i aelodau o ddirprwyaeth y DU ar Bwyllgor y Rhanbarthau bennu lefel y gefnogaeth fydd ei hangen i sefydlu'r comisiwn, ar draws Aelod-wladwriaethau a grwpiau gwleidyddol.

- Os sefydlir y fath gefnogaeth, bydd dull yn cael ei sefydlu i gynorthwyo Cabinet Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau wrth lunio papur i'w gyflwyno i gyfarfod Cynhadledd y Llywyddion ar 4 Rhagfyr 2018, y gellid ei fabwysiadu yn Bureau Pwyllgor y Rhanbarthau sy'n dilyn.

- Y bwriad fyddai trefnu nifer fach o gyfarfodydd y comisiwn cyn 29 Mawrth 2019 am y rhesymau a nodir uchod.

- Rydym wedi gofyn i'r Tasglu Brexit, cymdeithasau llywodraeth leol y DU a seneddau datganoledig i gefnogi'r dull hwn ynghyd â'r amserlen, ac rydym wedi cael cyngor ar aelodaeth y DU o'r comisiwn.

Y camau nesaf

Y gobaith ym mis Rhagfyr oedd y byddai Bureau Pwyllgor y Rhanbarthau, yn dilyn cyfarfod rhwng Llywyddion y Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau, yn gallu cynnig yng nghyfarfod llawn y Pwyllgor ym Mrwsel ar 6-7 Chwefror gymeradwyaeth i'r egwyddorion sy'n sail i ymrwymiad i berthynas barhaus â'r DU, ac o ganlyniad i Gymru. Ni ddigwyddodd hyn, ond mae trafodaethau pellach ar y gweill. Mae'n bwysig bod cynnydd yn cael ei wneud cyn diwedd mis Mawrth eleni pan fo'r DU (yn amodol ar unrhyw ddatblygiadau) yn gadael yr UE yn ffurfiol.

Cynhelir cyfarfod llawn nesaf Pwyllgor y Rhanbarthau ar 6-7 Chwefror lle bydd cyfarfod pellach ar gyfer dirprwyaeth y DU.

Mae'n bwysig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo'r dull hwn ac yn cadarnhau ei ymrwymiad i gynnal y cysylltiadau gorau posibl â'r UE a'i sefydliadau ar ôl

Brexit, a bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei sylwadau ei hun yn uniongyrchol i Bwyllgor y Rhanbarthau ac unrhyw gyrff perthnasol eraill i cyflawni hyn.

Fel cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, byddwn yn gwneud yr argymhellion canlynol:

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynnal perthynas barhaus â sefydliadau a rhwydweithiau'r UE, gan gynnwys Pwyllgor y Rhanbarthau, ar ôl Brexit.
2. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gyfarfodydd uniongyrchol gyda Phwyllgor y Rhanbarthau a chyrff perthnasol eraill yr UE i drafod sut y gellid cyflawni hyn.
3. Dylai Llywodraeth Cymru godi'r mater â Llywodraeth y DU o gael cynrychiolaeth gyswllt barhaus ar Bwyllgor y Rhanbarthol.

Atodiad A:

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu rhestr anghyflawn o rwydweithiau'r UE y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ynddynt neu sydd ag aelodau o Gymru. Mae'r rhestr fel a ganlyn:

Rhwydweithiau UE y mae Llywodraeth Cymru yn aelod ohonynt

Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol

Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes

Rhwydwaith GM

Y Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer datblygu cynaliadwy (rhyngwladol)

Four-Motors

ERRIN – Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Rhanbarthau Ewrop

Y Rhwydwaith ar gyfer Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol

Menter Vanguard

Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol a Lleol

Y Gymdeithas Telemateg Iechyd Ewropeaidd EHTEL

Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Heneiddio'n weithgar ac yn iach

Y Safle Cyfeirio Rhwydwaith Cydweithredol

Rhwydwaith Iechyd y Rhanbarthau – Sefydliad Iechyd y Byd - WHO RHN

Rhwydwaith Awdurdodau Cymdeithasol Ewrop

Platfform Rhwydweithio JASPERS

Rhwydweithiau UE y mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn aelod ohonynt

Gogledd-orllewin Ewrop

Strategaeth Ardal yr Iwerydd

Ardal yr Iwerydd

Iwerddon/Cymru

INTERREG Ewrop

INTERACT

URBACT

ESPON

Partneriaeth Gwerthuso Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Rhwydwaith Gwerthuso ERDF

Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop

IQ-Net

Rhwydweithiau UE y mae sefydliadau o Gymru yn aelodau ohonynt

Cyngor Dinasoedd a Rhanbarthau Ewrop

Llywodraethau Lleol a Dinasoedd Unedig

Rhanbarthau Ffilm

Gweithredu ar Ddiwylliant Ewrop

IETM

EUROCITIES

Eurochild

Y Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Cymdeithasau Sifil Cenedlaethol

Nostra Ewropeaidd

Trywydd Treftadaeth Ddiwydiannol Ewropeaidd

Cynhadledd ar Gynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop